OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 Rhif 1356 (Cy. 300)

# DEHONGLI DEDDFWRIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch ystyr geiriau ac ymadroddion penodol pan fyddant yn ymddangos yn Neddfau Senedd Cymru ac mewn is-offerynnau Cymreig. Mae'r geiriau a'r ymadroddion i'w dehongli yn unol ag Atodlen 1 ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

Mae'r Rheoliadau yn mewnosod darpariaethau yn Atodlen 1 ynghylch ystyr yr ymadroddion a ganlyn—

"Cod Dedfrydu";

"Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol";

"Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus";

"Ymddiriedolaeth Genedlaethol".

Maent hefyd yn diwygio'r diffiniad o'r "graddfa safonol" o ddirwyon am droseddau diannod o ganlyniad i'r Cod Dedfrydu (yr ailddatganiad o'r ddeddfwriaeth ddedfrydu a nodir yn Neddf Dedfrydu 2020).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

# 2020 No. 1356 (W. 300)

# INTERPRETATION OF LEGISLATION, WALES

## The Legislation (Wales) Act 2019 (Amendment of Schedule 1) Regulations 2020

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019, which makes provision about the meaning of certain words and expressions when they appear in Acts of Senedd Cymru and Welsh subordinate instruments. The words and expressions are to be interpreted in accordance with Schedule 1 except so far as express provision is made to the contrary or the context requires otherwise.

The Regulations insert provisions into Schedule 1 about the meaning of the following expressions—

"Equality and Human Rights Commission";

"National Trust";

"Public Accounts Committee";

"Sentencing Code".

They also amend the definition of the "standard scale" of fines for summary offences as a consequence of the Sentencing Code (the restatement of sentencing legislation set out in the Sentencing Act 2020).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1356 (Cy. 300)

# DEHONGLI DEDDFWRIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym* | *27 Tachwedd 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 6(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 43(2) o'r Ddeddf honno.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020.

(2) Deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

**Diwygiadau i Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019**

**2.**—(1) Mae'r Tabl yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (diffiniadau o eiriau ac ymadroddion sy'n ymddangos yn Neddfau Senedd Cymru ac mewn is-offerynnau Cymreig) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Mewnosoder y cofnodion a ganlyn yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor—

(**1**) 2019 dccc 4, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), Atodlen 1, paragraff 5. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. 1356 (W. 300)

# INTERPRETATION OF LEGISLATION, WALES

## The Legislation (Wales) Act 2019 (Amendment of Schedule 1) Regulations 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 November 2020* |
| *Coming into force* | *27 November 2020* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the power conferred on them by section 6(2) of the Legislation (Wales) Act 2019(**1**).

A draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru in accordance with section 43(2) of that Act.

**Title and coming into force**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Legislation (Wales) Act 2019 (Amendment of Schedule 1) Regulations 2020.

(2) They come into force on the day after the day on which they are made.

**Amendments to Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019**

**2.**—(1) The Table in Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019 (definitions of words and expressions appearing in Acts of Senedd Cymru and Welsh subordinate instruments) is amended as follows.

(2) Insert the following entries in the appropriate places in alphabetical order—

(**1**) 2019 anaw 4, amended by the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1), Schedule 1, paragraph 5. There are other amendments not relevant to this instrument.

| | |
|---|---|
| “Cod Dedfrydu (*Sentencing Code*) | ystyr “Cod Dedfrydu” yw’r cod sydd wedi ei gynnwys yn Neddf Dedfrydu 2020 (p. 17) (gweler adran 1 o’r Ddeddf honno)”; |

| | |
|---|---|
| “Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (*Equality and Human Rights Commission*) | ystyr “Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol” yw’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 (p. 3)”; |

| | |
|---|---|
| “Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (*Public Accounts Committee*) | ystyr “Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus” yw pwyllgor Senedd Cymru a sefydlwyd yn unol ag adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (ac y cyfeirir ato yn yr adran honno fel y “Pwyllgor Archwilio”)”; |

| | |
|---|---|
| “Ymddiriedolaeth Genedlaethol (*National Trust*) | ystyr “Ymddiriedolaeth Genedlaethol” yw’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Fannau o Ddiddordeb Hanesyddol neu Harddwch Naturiol a gorfforwyd gan Ddeddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1907 (p. cxxxvi)”. |

(3) Yn y diffiniad o “graddfa safonol”, ar ôl “yr ystyr a roddir i “standard scale”” mewnosoder—

“—

(a) yn achos trosedd y mae’r troseddwr wedi ei euogfarnu ohoni ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2020, gan adran 122 o’r Cod Dedfrydu;

(b) yn achos trosedd yr oedd y troseddwr wedi ei euogfarnu ohoni cyn y dyddiad hwnnw,”.

| | |
|---|---|
| “Equality and Human Rights Commission (*Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*) | “Equality and Human Rights Commission” means the Commission for Equality and Human Rights established by section 1 of the Equality Act 2006 (c. 3)”; |

| | |
|---|---|
| “National Trust (*Ymddiriedolaeth Genedlaethol*) | “National Trust” means the National Trust for Places of Historic Interest or Natural Beauty incorporated by the National Trust Act 1907 (c. cxxxvi)”; |

| | |
|---|---|
| “Public Accounts Committee (*Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*) | “Public Accounts Committee” means the committee of Senedd Cymru established in accordance with section 30 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32) (and referred to in that section as the “Audit Committee”)”; |

| | |
|---|---|
| “Sentencing Code (*Cod Dedfrydu*) | “Sentencing Code” means the code contained in the Sentencing Act 2020 (c. 17) (see section 1 of that Act)”. |

(3) In the definition of “standard scale”, after “meaning given” insert—

“—

(a) in the case of an offence of which the offender is convicted on or after 1 December 2020, by section 122 of the Sentencing Code;

(b) in the case of an offence of which the offender was convicted before that date,”.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
26 Tachwedd 2020

First Minister, one of the Welsh Ministers
26 November 2020

©ⓗHawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-20679-1

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1356

9 780348 206791